Information English:

Over the bank holiday weekend it is essential that everybody continues to avoid non-essential travel and ‘stay at home’.

By following this advice we can all ‘help protect the NHS and save lives’.

Most people are being considerate of others and are following this advice, however with the bank holiday approaching, there remains a risk that some people might attempt to congregate, in groups or in public open spaces.

Areas in Flintshire where we have had reports previously of people congregating, including Wepre Park in Connah’s Quay, continue to be monitored by North Wales Police. The principal roads into and out of the County are also monitored and motorists can be stopped and questioned by the Police.

The following car parks remain closed as people have congregated there previously:

• Dock Road, Connah’s Quay

• Flint Castle

• Life Boat Station, Flint

• Saltney Ferry Footbridge

• Dock Road, Greenfield

• Gwaenysgor Viewpoint

The Lighthouse Car Park, Talacre has also been closed by the proprietor.

Public open spaces and footpaths should be used responsibly and social distancing should be observed at all times when exercising. When out on your bicycle, walking the dog, or going for a walk or run, remember to ‘stay local’.

Please be considerate of the landowners over whose land paths pass when using Rights of Way and remember to;

• Go alone or with members of your household

• Be aware that gates, stiles and other outdoor structures are touched regularly - so follow hygiene guidance

• Do not try new or risky activities - ‘stay safe’

• Follow the Countryside Code

• Open disregard of these rules will leave the Council with no option but to temporarily close a path.

We look forward to welcoming visitors to the many fantastic places our wonderful county has to offer when the current restrictions are eased.

Information Welsh:

Dros benwythnos gwyl y banc mae'n hanfodol bod pawb yn parhau i osgoi teithio'n ddiangen ac yn 'aros adref'.

Trwy ddilyn y cyngor hwn, gallwn helpu i 'ddiogelu'r GIG ac achub bywydau'.

Mae mwyafrif o bobl yn bod yn ystyriol o eraill ac yn dilyn y cyngor hwn, fodd bynnag gyda gwyl y banc yn agosáu, mae perygl y bydd pobl yn ceisio ymgynnull, mewn grwpiau neu mewn mannau agored cyhoeddus.

Mae ardaloedd yn Sir y Fflint lle mae adroddiadau blaenorol o bobl yn ymgynnull, gan gynnwys Parc Gwepra yng Nghei Connah, yn parhau i gael eu monitro gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r prif ffyrdd i mewn ac allan o'r Sir hefyd yn cael eu monitro a gall deithwyr gael eu stopio a'u cwestiynu gan yr Heddlu.

Mae'r meysydd parcio canlynol yn parhau i fod ar gau gan fod pobl wedi bod yn ymgynnull ynddynt o'r blaen:

- Dock Road, Cei Connah
- Castell y Fflint
- Gorsaf y Bad Achub, y Fflint
- Pont Droed Saltney Ferry
- Dock Road, Maes Glas
- Golygfan Gwaenysgor

Mae Maes Parcio'r Goleudy, Talacre hefyd ar gau gan y perchennog.

Dylid defnyddio mannau agored a llwybrau cyhoeddus mewn modd cyfrifol a dylid cadw pellter cymdeithasol bob amser wrth ymarfer corff. Os ydych allan ar eich beic, yn cerdded y ci, neu'n mynd am dro neu'n rhedeg, cofiwch 'aros yn lleol'.

Byddwch yn ystyriol o berchnogion tir wrth groesi llwybrau ar eu tir wrth ddefnyddio hawliau tramwy a chofiwch;

- Fynd ar eich pen eich hun neu gydag aelodau eich aelwyd

• Bod yn ymwybodol bod pobl yn cyffwrdd gatiau, camfeydd a strwythurau awyr agored eraill yn aml felly dylid dilyn canllawiau hylendid

• Peidio rhoi cynnig ar weithgareddau newydd neu sy’n peri risg – ‘aros yn ddiogel’

• Dilyn y Cod Cefn Gwlad

• Wrth ddiystyru’r rheolau hyn ni fydd gan y Cyngor ddewis ond cau’r llwybr dros dro.

Edrychwn ymlaen at groesawu ymwelwyr i’r nifer o leoliadau gwych mae ein sir yn ei gynnig unwaith i’r cyfyngiadau presennol gael eu llacio.